CYFRES A8


# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Enw ______________________



DARLLENWCH
Actau 10: 9-23




ADNOD
ALLWEDDOL
Ioan 3: 16

*Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.*

## Stori 2 Gweledigaeth Pedr

Ar ôl i Dorcas ddod nôl yn fyw, arhosodd Pedr yn Jopa am dipyn.

Roedd Pedr yn meddwl mai dim ond dros ei bobl ei hunan, yr Iddewon, roedd Iesu wedi marw. Ond tra oedd yn dal yn Jopa, yn aros yng nghartref dyn o'r enw Simon, dysgodd Duw wers bwysig iawn i Pedr.



**C Yng nghartref pwy roedd Pedr yn aros? (Tanlinellwch yr ateb cywir)**

**Cartref Simon    Cartref Dorcas    Cartref Philip**

3

Tua chanol dydd, roedd Pedr yn gweddïo. Siaradodd Duw â Pedr a dweud wrtho bod Duw yn caru pawb a phopeth y mae wedi'u gwneud.

**C Beth oedd Pedr yn ei wneud tua chanol dydd?**

**G __ __ ___ __ __ .**

3

Dair gwaith, dywedodd Duw wrth Pedr bod pawb, nid yr Iddewon yn unig, yn bwysig iddo.

Tra oedd Pedr yn meddwl am yr hyn a ddywedodd Duw, daeth tri dyn i'r tŷ. Gofynnodd y dynion i Pedr fynd gyda nhw i gartref swyddog yn y fyddin Rufeinig, dyn o'r enw Cornelius.

**C Lliwiwch y rhif sy'n dweud sawl dyn ddaeth i weld Pedr**

1    4    6    3

3

Roedd Cornelius yn byw tua 40 milltir i ffwrdd, yng Nghesarea. Ond dyn o wlad arall oedd Cornelius. Doedd Pedr erioed wedi bod yng nghartref rhywun felly o'r blaen. Beth ddylai ei wneud?

Cofiodd Pedr neges Duw iddo – bod pawb o bob gwlad yn bwysig i Dduw.


**C Gwnewch y Croesair.**

**1. Beth oedd enw'r dref lle'r oedd Pedr yn aros?**

**2. Pwy oedd yn gweddïo tua chanol dydd?**

**3. I gartref pwy gafodd Pedr wahoddiad?**

**4. Yng nghartref pwy roedd Pedr yn aros?**




**8**



Drannoeth, aeth Pedr gyda'r tri dyn i weld Cornelius.

Os ydyn ni wedi credu yn Iesu Grist, mae hynny'n wych! Ond nid dim ond ar ein cyfer ni mae'r Newyddion Da am Iesu – mae ar gyfer pawb yn ein hysgol, yn ein pentref ac yn ein byd!

Gofynnwch i Dduw eich helpu i ddweud wrth bobl eraill am Iesu.

**Lliwiwch y geiriau.**

# "Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab..."

**Ioan 3:16**

**3**

**cyfanswm**